# SL(5)696 – Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

## Cefndir a Diben

Gwneir y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru o dan adrannau 45C(1), (2), (3)(c) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Mae'r Rheoliadau'n atal, ac eithrio o dan amgylchiadau penodedig, bod yn bresennol mewn tŷ annedd at ddiben gweithredu gwrit neu warant meddiant, gweithredu gwrit neu warant adfer neu ddanfon hysbysiad troi allan.

Yr amgylchiadau penodedig yw pan fo'r llys wedi ei fodloni bod yr hawliad yn un yn erbyn tresmaswyr sy'n bersonau anhysbys neu pan y'i gwnaed yn llwyr neu'n rhannol ar sail trais domestig, troseddau difrifol, ymddygiad gwrthgymdeithasol, niwsans neu, mewn achosion pan fo'r person sy'n bresennol wedi ei fodloni nad yw'r tŷ annedd wedi ei feddiannau ar yr adeg pan fo'n bresennol, farwolaeth y meddiannydd.

Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 11 Rhagfyr 2020 a deuant i ben ar 11 Ionawr 2021.

Gwnaeth y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ddatganiad ar 10 Rhagfyr 2020 yn ychwanegu mai "diben y Rheoliadau yw sicrhau bod cyn lleied â phosibl o denantiaid yn cael eu troi allan yn ystod cyfnod y Nadolig a chanol y gaeaf. Gyda mynediad at wasanaethau a llety amgen yn aml yn gyfyngedig yn ystod y cyfnod hwn, mae mwy o risg y bydd troi allan yn arwain at ddigartrefedd, sydd yn ei dro yn cynyddu'r risg y bydd y feirws yn cael ei drosglwyddo."

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd.

Yn unol â'r weithdrefn frys a nodir yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae'n rhaid i'r offeryn hwn gael ei gymeradwyo gan y Senedd erbyn 26 Ionawr 2021 er mwyn iddo barhau i fod mewn grym.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) - ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 3(2) yn ddarpariaeth arbed ac mae'n nodi'r canlynol:

*"(2) Nid yw'r ffaith bod y Rheoliadau hyn wedi dod i ben yn effeithio ar ddilysrwydd unrhyw beth a wneir neu nas gwneir yn unol â'r Rheoliadau hyn cyn iddynt ddod i ben."*

Nid yw'n eglur pam y mae angen y ddarpariaeth hon oherwydd gweithredu adran 34 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019. Ymddengys nad oes diben i'r ddarpariaeth a'i bod yn ddiangen. Bydd cyd-destunau pan fydd yn ystyrlon ac yn ddymunol, neu hyd yn oed yn angenrheidiol, gwneud darpariaeth sy'n dyblygu darpariaeth y Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) ond, yn yr achos hwn, nid yw'n eglur pam y cafodd ei chynnwys a gallai beri dryswch. Gofynnir i'r Llywodraeth esbonio pam y bernir bod y ddarpariaeth hon yn angenrheidiol.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Rheoliadau hyn yn ymgysylltu â hawliau landlordiaid o dan Erthygl 1 Protocol 1 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ("A1P1"). Er bod y Memorandwm Esboniadol yn nodi y gwneir y Rheoliadau hyn mewn ymateb i argyfwng iechyd y cyhoedd, nid yw'n cyfeirio'n benodol at y ffaith bod y rheoliadau hyn yn ymgysylltu â hawliau dynol a sut y maent o'r farn bod y darpariaethau'n gyfiawnadwy ac yn gymesur yng nghyd-destun yr hawliau hynny. Gofynnir i'r Llywodraeth roi'r cyfiawnhad hwn.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn na chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*"O ystyried yr argyfwng iechyd y cyhoedd, ni fu modd cynnal unrhyw ymgynghoriad ar y Rheoliadau hyn ac nid oes gofyniad statuol i wneud hynny."*

Er y derbynnir nad oes gofyniad statudol i ymgynghori wrth wneud y rheoliadau hyn o dan y pwerau uchod, a all y Llywodraeth gadarnhau a oedd yn gallu ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol o gwbl cyn gwneud y rheoliadau hyn?

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Pwyllgor yn nodi nad oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i baratoi ar gyfer y Rheoliadau hyn a bod y Memorandwm Esboniadol yn nodi'r canlynol:

*"Mae'r argyfwng COVID-19 a brys gwneud y Rheoliadau hyn yn golygu [na] fu modd paratoi Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i feintioli."*

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod paragraff 6 o'r Memorandwm Esboniadol yn ceisio nodi crynodeb o effaith bosibl y Rheoliadau hyn sy'n darparu rhywfaint o asesiad ansoddol o'u heffaith.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 14 Rhagfyr 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.